# NEWYDDLEN

## I'R SECTOR ÔL-16

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Medi 2019








## CYNLLUN LLYSGENHADON ADDYSG BELLACH A PHRENTISIAETHAU

Mae'r Coleg Cymraeg yn chwilio am lysgenhadon i helpu hyrwyddo sgiliau dwyieithrwydd o fewn y Colegau Addysg Bellach ac i'r sector prentisiaethau. Y bwriad yw penodi hyd at dri dysgwr ymhob Coleg i ymgymryd â'r rôl o fod yn Llysgennad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2019/2020. Bydd gofyn i'r llysgenhadon fod yn frwdfrydig am y Gymraeg ac yn barod i gydweithio er mwyn ysbrydoli eu cyfoedion yn y colegau. Bydd gofyn i o leiaf un o'r llysgenhadon fod yn astudio ym meysydd blaenoriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sef: Iechyd a Gofal, Gofal Plant neu Wasanaethau Cyhoeddus. Lansiwyd y cynllun yn swyddogol gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, Eluned Morgan, yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

**Sut i gymryd rhan?**

Os oes diddordeb gan unrhyw ddysgwr i fod yn rhan o'r cynllun hwn, cysylltwch â'r Hyrwyddwr Dwyieithrwydd o fewn eich Coleg, neu gyda'ch darparwr prentisiaethau am fwy o wybodaeth.

## CYMRAEG GWAITH PRENTISIAETHAU


Mae'r cynllun Cymraeg Gwaith Prentisiaethau yn gynllun cyffrous newydd, rhad ac am ddim i ddarparwyr prentisiaeth a phrentisiaid i ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg. Bydd y cynllun yn cynnig hyfforddiant i aseswyr/mentoriaid a phrentisiaid fel ei gilydd i ddysgu Cymraeg a datblygu eu defnydd ohoni yn y gweithle. Mae cwmni People Plus eisoes wedi manteisio ar y prosiect ac yn gweld gwerth mewn asesu a datblygu sgiliau iaith eu staff.



**Pa gefnogaeth sydd ar gael?**

**Cam Un:** Bydd pob aseswr/mentor neu brentis sydd yn ystyried cymryd rhan yn y cynllun yn cychwyn trwy gwblhau'r 'Gwiriwr Lefel' fydd yn adnabod lefel eu sgiliau Cymraeg trwy raglen ar-lein.

**Cam Dau:** Cytuno rhaglen o gefnogaeth rhad ac am ddim rhwng y darparwr prentisiaeth a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r cynllun hwn yn bartneriaeth rhwng Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.




**Sut i gymryd rhan?**

Mae sawl darparwr prentisiaeth / cwmni eisoes wedi mynegi diddordeb yn y cynllun. Os hoffech fwy o fanylion neu drefnu cyfarfod gyda rheolwyr eich darparwr cysylltwch ag Adam Jones: a.jones@colegcymraeg.ac.uk

CYMRAEG
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# ADNODDAU IECHYD A GOFAL AC YMWYBYDDIAETH IAITH NEWYDD




Mae adnodd Ymwybyddiaeth Iaith newydd ar gyfer y sector prentisiaethau yn barod i'w ddefnyddio. http://colegcymraeg.ac.uk/prentis-iaith
Bydd adnoddau Iechyd a Gofal a gomisiynwyd gan y Coleg ar gael i'w defnyddio yn rhad ac am ddim o'r 23 Medi ymlaen.
http://colegcymraeg.ac.uk/adnoddiechydagofal

# SEFYDLU BWRDD STRATEGOL ÔL-16

Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg wedi penderfynu sefydlu bwrdd strategol ôl-16 oddi fewn i strwythur llywodraethant y Coleg yn dilyn ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys y sectorau Addysg Bellach a Phrentisiaethau. Bydd y bwrdd newydd yn cael ei gadeirio gan Meri Huws, un o gyfarwyddwyr y Coleg. Bwriedir gwahodd pob sefydliad addysg bellach a darparwr prentisiaethau ynghyd â phartneriaid allweddol eraill i gael eu cynrychioli ar y bwrdd newydd a fydd yn cwrdd yn nhymor yr Hydref.

# BUDDSODDI DROS £130,000 I DDATBLYGU DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG A DWYIEITHOG

Yn dilyn proses gystadleuol i geisio am Grantiau Datblygu'r Sector Ôl-16 i ehangu darpariaeth Cymraeg neu ddwyieithog, mae'n dda gan y Coleg gyhoeddi ein bod wedi buddsoddi dros £130,000 i ddatblygu darpariaeth ym meysydd Iechyd a Gofal, Gofal Plant a Gwasanaethau Cyhoeddus. Dyfarnwyd 6 grant i gyd ac edrychwn ymlaen at weld y cynlluniau'n datblygu.

# CEFNOGI DARPARWYR A CHYDWEITHIO

Mae'r Coleg wedi cydweithio â nifer o bartneriaid yn ystod y misoedd diwethaf er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg. Cyflwynwyd sesiynau llwyddiannus yng nghynadleddau Colegau Cymru ac NTFW. Ochr yn ochr â hyn rydym wedi trafod cydweithio ar gynlluniau penodol gyda Dŵr Cymru, S4C a SkillsCymru. Dewch i'n gweld ni yn Skills Cymru Caerdydd a Llandudno lle byddwn yn rhannu manteision astudio'n Gymraeg a'n ddwyieithog.

# DEWCH YN AELOD O'R COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Mae system aelodaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn caniatáu i unrhyw un sydd â diddordeb yng ngwaith y Coleg ddod yn aelod o'r Coleg. Trwy ymaelodi â'r Coleg bydd aelodau yn derbyn gwybodaeth am weithgareddau a datblygiadau, ynghyd â manylion am gyfleoedd a fydd yn codi o gynlluniau'r Coleg.
http://www.colegcymraeg.ac.uk/ymaelodi



**Nodyn i'r dyddiadur:**

**9-10 Hydref – Skills Cymru, Arena Motorpoint, Caerdydd**
**16-17 Hydref – Skills Cymru, Venue Cymru, Llandudno**
**24 Hydref – Gwobrau Prentisiaid Cymru**
**05 Tachwedd – Cyfarfod Cyntaf Bwrdd Strategol Ôl-16**
**21-23 Tachwedd – World Skills, Birmingham**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau/sylwadau neu syniadau yr hoffech eu trafod – cysylltwch â
Dr Dafydd Trystan d.trystan@colegcymraeg.ac.uk;
neu Dr Lowri Morgans l.morgans@colegcymraeg.ac.uk

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
CYMRAEG
Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government